Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr

**Heol Bethel**
**Cwm-twrch Isaf**
**Abertawe**

**SA9 2PT**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 407 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 281 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 65 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 15.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 13.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 40.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/12/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr yn ysgol gynhwysol, groesawgar a chyfeillgar sydd yn rhoi bri ar sicrhau'r lles gorau posibl ar gyfer pob disgybl. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'r cyfleoedd a gânt trwy eu profiadau dysgu. Maent yn gwrtais a pharchus iawn gyda'i gilydd ac ymwelwyr i'r ysgol ac mae eu hymddygiad yn dda. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant cryf o ddiogelu ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith, rhifedd a digidol o'u mannau cychwyn. Maent yn cymhwyso eu medrau'n hyderus ar draws y cwricwlwm. Er hyn, mae disgyblion yn dueddol o ddefnyddio Saesneg fel iaith ar gyfer cymdeithasu a chyfathrebu â chyfoedion wrth drafod eu gwaith yn yr ysgol, gan gynnwys yn ystod gwersi cyfrwng y Gymraeg.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu symbylus a diddorol sy'n adlewyrchu'r cyd-destun lleol yn effeithiol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at y broses o gynllunio'r cwricwlwm ac mae eu syniadau a'u hoffterau yn cael eu hymgorffori yn y themâu a'r gweithgareddau yn fedrus. Mae athrawon yn sefydlu perthynas weithio annwyl a chefnogol â disgyblion ac mae'r ardaloedd dysgu yn llawn bwrlwm ac egni. Ar y cyfan, maent yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu effeithiol sy'n ennyn diddordeb disgyblion a'u hannog i weithio'n annibynnol yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw cyflymder sesiynau bob tro'n ddigon cyflym ac nid yw adborth bob tro'n sicrhau bod disgyblion yn gwella eu gwaith yn ddigon effeithiol.

Mae'r pennaeth yn arweinydd effeithiol a chadarn. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hunain ac eraill ac mae ei gweledigaeth yn seiliedig ar sicrhau bod bob disgybl yn hapus a diogel. Cefnogir y pennaeth gan dîm o staff ymroddgar a gweithgar sy'n cydweithio'n bwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol gyda gofal ac angerdd canmoladwy ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Maent yn darparu cefnogaeth gadarn i arweinwyr a staff ac yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud defnydd priodol o'i hadnoddau.

## Argymhellion

A1 Gwella defnydd disgyblion o Gymraeg llafar

A2 Rhannu'r arferion addysgu gorau er mwyn sicrhau cyflymder addas i'r sesiynau dysgu ac ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion wella'u gwaith

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar fynediad i’r ysgol, mae medrau cyfathrebu a chymdeithasol llawer o ddisgyblion yn is na’r disgwyl am eu hoedran a’u cam datblygu. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sydd yn cael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd da yn eu medrau o gymharu â’u mannau cychwyn.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad yn briodol. Maent yn sgwrsio gyda’u cyfoedion ac oedolion gan ddefnyddio iaith a thôn llais addas ac yn defnyddio geirfa pwnc berthnasol yn hyderus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio termau fel ‘stalactidau’ a 'stalagmidau' yn bwrpasol i ddisgrifio nodweddion ogofâu cyfagos. Ar adegau, mae mwyafrif y disgyblion yn sgwrsio’n hyderus yn y Gymraeg gydag oedolion gan ddefnyddio patrymau iaith sydd o fewn eu profiad yn gywir. Er hyn, wrth gymdeithasu a thrafod eu gwaith gyda’u cyfoedion, nid ydynt yn defnyddio’r Gymraeg yn ddigon rheolaidd. Maent yn dueddol o droi at y Saesneg, hyd yn oed wrth ymateb i gwestiynau a chyfarwyddiadau Cymraeg er bod ganddynt ddealltwriaeth dda o beth y maent wedi ei glywed, ar y cyfan. Mae hyn yn llesteirio cynnydd eu medrau llafar Cymraeg.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn datblygu eu hyder ac yn darllen yn gynyddol rugl. Maent yn dechrau defnyddio mynegiant a goslef er mwyn cyfleu ystyr yn bwrpasol. Erbyn Blwyddyn 4, mae disgyblion yn esbonio cynnwys straeon yn fedrus ac yn defnyddio gwybodaeth ffonolegol i ddarllen geiriau llai cyfarwydd yn hyderus. Mae’r disgyblion hynaf yn mynegi eu barn am ystod o destunau yn llwyddiannus ac yn cychwyn dangos hoffterau at awduron penodol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn gyda’u medrau ysgrifennu. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ysgrifennu sylfaenol wrth ffurfio siapiau a marciau mewn siwgr. Maent yn adeiladu ar y medrau hyn erbyn Blwyddyn 2 wrth ddefnyddio ansoddeiriau dychmygus i ddisgrifio eu dreigiau. Mae disgyblion uned Glas y Gors yn adeiladu cyfres o frawddegau wedi eu hatalnodi’n gywir i adrodd hanes eu hymweliad preswyl i Gaerdydd. Mae’r disgyblion hŷn yn defnyddio ystod o ddulliau effeithiol i greu awyrgylch o ofn ac anesmwythder wrth ddisgrifio profiadau plant yn ystod y ‘Blitz’ yn yr Ail Ryfel Byd. Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn fedrus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemateg yn llwyddiannus. Mae’r disgyblion ieuengaf yn adnabod rhifau hyd at 10 ac yn cyfrif gwrthrychau yn fedrus. Maent yn adeiladu’n llwyddiannus ar y wybodaeth hon ac, erbyn Blwyddyn 3,

maent yn tynnu rhifau'n bwrpasol gan ddefnyddio ystod o ddulliau addas. Erbyn brig yr ysgol, maent yn datblygu rhuglder cynyddol wrth ymdrin â rhif, er enghraifft wrth adio rhifau cymysg. Maent yn cymhwyso eu medrau'n bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn mesur hyd a lled llythyrau yn y swyddfa bost a'u didoli yn ôl eu maint yn barod i'w hanfon.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn cymhwyso eu medrau yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau codio cynnar wrth raglennu crwydryn i ymweld ag ystod o dylluanod. Erbyn brig yr ysgol, maent yn adeiladu ymhellach ar eu medrau codio wrth ail-greu llwybr hwylio'r 'Titanic' ar y sgrin gan ddefnyddio pecyn pwrpasol.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau modur mân yn fwriadus wrth siapio toes yn ofalus i efelychu creaduriaid y goedwig. Mae disgyblion Blwyddyn 3 yn perfformio dilyniant o symudiadau yn hyderus gan ddangos cydbwysedd, tensiwn corff ac amseru priodol. Mae'r disgyblion hynaf yn frwdfrydig wrth ddatblygu eu medrau pêl-droed. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n effeithiol fel aelodau o dîm ac yn parchu rheolau'r gweithgareddau.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n hynod lwyddiannus. Mae hon yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio pecyn pwrpasol i greu dehongliadau ddiddorol o'r dylluan yn ei chynefin. Maent yn datblygu eu medrau a'u gallu i fynegi eu syniadau ar draws ystod gynyddol o gyfryngau a dulliau wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 a 5 yn cynhyrchu gwaith o safon uchel wrth efelychu gwaith artist am y planedau.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Bron heb eithriad, mae disgyblion yn gyfeillgar a pharchus ac yn hynod ofalgar o'u cyfoedion. Maent yn siarad am yr ysgol â balchder ac yn ymfalchïo yn y perthnasoedd cynhyrchiol sydd rhyngddynt â'r staff. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi petai unrhyw bryderon ganddynt. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn sensitif i anghenion eu cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn gyson dda mewn gwersi, yn ystod gwasanaethau ac wrth symud o gwmpas yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o sut i gefnogi eu lles eu hunain. Er enghraifft, mae disgyblion yn nodi sut maent yn teimlo wrth gyrraedd y dosbarth yn y bore ac mae staff yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon neu anghenion. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o'r corneli lles o fewn y dosbarthiadau pan maent angen amser i ymlacio neu fyfyrio ar eu teimladau. Mae ychydig o ddisgyblion bregus yr ysgol yn mynychu darpariaeth werthfawr 'Yr Hafan'. Mae swyddogion lles etholedig o bob dosbarth yn cefnogi eu cyfoedion yn effeithiol, er enghraifft wrth gynnig cyfeillgarwch a rhywun i gymdeithasu â nhw yn ystod amseroedd chwarae.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion Canolfan Glas y Gors, agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith a'u profiadau dysgu. Ar y cyfan, maent yn gwrando'n aeddfed ar gyfraniadau eu cyfoedion ac yn parchu eu barnau a'u safbwyntiau. Mae'r disgyblion hŷn yn modelu'r ymddygiadau hyn ar gyfer y disgyblion

iau yn effeithiol. Mae bron bob un o'r disgyblion yn ymgysylltu â phrofiadau newydd yn gadarnhaol ac mae llawer yn dyfalbarhau'n ganmoladwy wrth wynebu heriau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn cefnogi ei gilydd ac yn aros ar dasg wrth ddatrys problemau heriol yn ymwneud â pherimedr ac arwynebedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Er enghraifft, maent yn datblygu empathi a dealltwriaeth aeddfed o heriau y mae eraill wedi eu goroesi wrth astudio hanes Betty Campbell.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae llawer yn prynu byrbrydau iachus o'r siop ffrwythau yn ddyddiol. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o effaith ymarfer corff ar eu hiechyd corfforol a meddyliol. Maent yn cymryd rhan yn egnïol mewn sesiynau ymarfer corff yn gyson. Yn ogystal, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol gan fynychu ystod eang o glybiau allgyrsiol yn yr ysgol gan gynnwys rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd a hoci. Mae bron bob un yn gwybod sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn dewis cyfrineiriau addas ac yn deall pwysigrwydd gofyn am ganiatâd oedolyn cyn defnyddio gwefannau ac apiau llai cyfarwydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau o fewn yr ysgol. Maent yn ymfalchïo yn y ffaith fod cyfle i bob disgybl gymryd rhan. Maent yn diwallu eu dyletswyddau'n gydwybodol ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i hybu iechyd a lles eraill, er enghraifft wrth drefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol. Mae'r cyngor ysgol yn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol yn bwrpasol trwy'r 'Calendr Caredigrwydd', fel côr yr ysgol yn canu yn y cartref henoed lleol a threfnu te prynhawn i drigolion yr ardal. Mae'r Criw Cymraeg yn cychwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn fwriadus, er enghraifft wrth wobrwyo disgyblion sy'n ymdrechu i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi cyfleoedd rheolaidd i leisio eu barnau am beth a sut y maent am ddysgu. Maent yn cyfrannu syniadau at themâu newydd yn bwrpasol gan nodi cwestiynau ymholi ar furluniau o fewn y dosbarthiadau. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol wrth ddylunio ardaloedd chwarae rôl, er enghraifft wrth ddylunio swyddfa bost ym Mlwyddyn 2. Mae'r disgyblion hynaf yn cysylltu eu hawliau yn aeddfed gyda'r hyn y maent yn dymuno ei ddysgu. Pan gânt y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb i adborth gan athrawon yn gadarnhaol ac yn gwella eu gwaith yn bwrpasol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys a chyfoethog ac yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r arweinwyr a staff wedi cydweithio â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i sicrhau darpariaeth sy'n cwmpasu meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru yn fwriadus ac yn defnyddio'r cyd-destun lleol yn effeithiol.

Mae staff, gan gynnwys staff canolfan Glas y Gors, yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio cwricwlwm cyffrous sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn hybu dilyniant ym medrau disgyblion. Mae lle amlwg yn cael ei roi i sicrhau bod syniadau'r disgyblion yn cyfrannu at ddylunio'r themâu ynghyd â'r profiadau dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfranogi'n frwd ac yn dangos awydd cyson i ddysgu. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso eu

medrau'n gyson ac ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm. Mae staff yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion trwy weithgareddau bwriadus yn y dosbarth ac yn yr ardaloedd tu allan. Er hyn, nid yw lleiafrif y disgyblion yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn annibynnol heb anogaeth gan staff.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddarllen ystod o destunau difyr fel rhan o waith thematig y dosbarth, ynghyd â darparu cyfleoedd cyson iddynt ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu medrau rhifedd a digidol mewn ystod o gyd-destunau pwrpasol. Er enghraifft, ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus trwy lunio graff bar i gynrychioli'r glawiad blynyddol yn ardal Ystradgynlais.

Mae'r ysgol yn dyfnhau a chyfoethogi'r cwricwlwm trwy wahodd ymwelwyr diddorol ac ysbrydoledig i'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio gyda bardd enwog er mwyn cyfansoddi cerddi sy'n cyfathrebu eu dehongliadau o rôl hanesyddol caethwasiaeth yn y diwydiant gwlân lleol. Gwneir defnydd pwrpasol o ymweliadau addysgol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o feysydd dysgu penodol. Er enghraifft, maent yn dysgu am harddwch naturiol a nodweddion daearyddol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae staff yn sicrhau bod y dosbarthiadau a'r ardaloedd dysgu yn lleoedd ysgogol sy'n galluogi'r disgyblion i ymchwilio, arbrofi a dysgu mewn awyrgylch cartrefol a chefnogol. Mae perthynas waith hynod o annwyl yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae llawer o athrawon yn cynnig arweiniad clir yn ystod gweithgareddau dysgu ac mae disgyblion yn gweithio ar gyflymder bwriadus. Maent yn cymell disgyblion yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn gweithio'n annibynnol o oedran cynnar. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o bob disgybl o ran ymddygiad ac maent yn annog parch a chwrteisi ganddynt. Maent yn defnyddio ystod dda o dechnegau holi yn bwrpasol i gadarnhau dealltwriaeth a hybu medrau datrys problemau'r disgyblion. Mae llawer o staff yn darparu adborth defnyddiol yn ystod sesiynau dysgu sy'n caniatáu i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a'i wella yn llwyddiannus. Lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae cyflymder cyflwyniadau a gweithgareddau'n rhy araf ac ychydig o gyfleoedd sydd i ddisgyblion wella'u gwaith yn bwrpasol.

Mae staff Canolfan Glas y Gors yn teilwra'r ddarpariaeth yn fwriadus ar gyfer anghenion unigol bob disgybl gan baratoi gweithgareddau symbylus ar eu cyfer. Mae'r staff yn rhoi pwyslais ar '5 Egwyddor y Dydd' sy'n cynnwys gosod cyfarwyddiadau clir a'r defnydd bwriadus o dechnoleg. O ganlyniad, mae pob disgybl yn y ganolfan yn dangos cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ardaloedd allanol eang y safle i sbarduno'r dysgu a hybu medrau'r disgyblion ymhellach. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio'r llochesi yn yr ardal wyllt wrth uniaethu â phlant o gyfnod y Blitz yn Abertawe yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Maent yn symud ymlaen i ysgrifennu dyddiaduron diddorol sy'n llawn teimladau ac emosiynau trawiadol.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd yn briodol ar gynnydd disgyblion ynghyd â'r camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn cynnwys syniadau gwerthfawr ynghylch sut y gall rieni gefnogi eu plentyn gyda'u dysgu adref. Mae staff y ganolfan yn cyflwyno

adroddiadau electronig rheolaidd sy'n dathlu llwyddiannau disgyblion yn ystod y flwyddyn mewn modd gweledol a bwriadus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ethos hapus, cynhwysol a chroesawgar iawn yn yr ysgol. Mae'r pwyslais cryf ar ddathlu cynefin a pharchu eraill yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu disgyblion sy'n gwrtais, yn ymddwyn yn dda ac yn falch o'u hysgol a'u cymuned. Mae staff yn cynllunio cefnogaeth yn ofalgar er mwyn diwallu anghenion emosiynol, personol a chymdeithasol disgyblion. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dangos empathi a pharch at eu cyfoedion a'r staff, gyda phawb yn dangos gofal tyner i'w gilydd. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r ystyriaeth a roddir i iechyd meddwl a lles disgyblion trwy gynnig cyfleoedd helaeth iddynt drafod eu hemosiynau mewn amryw ffyrdd. Er enghraifft, mae disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth faethu a'r ganolfan yn rhan o gyflwyniad thematig ar yr Ail Ryfel Byd sydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hyder a'u hunanddelwedd.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae staff wedi sefydlu trefniadau cynhwysfawr ar gyfer monitro a thracio cynnydd disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar a darparu rhaglenni cefnogi pwrpasol, lle mae angen. Mae gan bob disgybl dargedau priodol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion, y staff a'r rhieni. Gwna'r ysgol ddefnydd da o asiantaethau allanol gan gynnwys cefnogaeth reolaidd gan seicolegwyr addysg, y tîm iaith a lleferydd ac arbenigwyr awtistiaeth yr awdurdod lleol. Mae cynorthwywyr yn gweithio'n wybodus ac yn fedrus wrth gefnogi nifer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau ac i feithrin medrau pwysig fel gweithio fel aelod gwerthfawr o dîm. Mae disgyblion yn siarad yn frwd am eu gweithgareddau amrywiol o fewn pwyllgorau fel y cyngor ysgol, pwyllgor eco, 'Criw Cymraeg' a'r 'Dewiniaid Digidol'. Maent yn dylanwadu ar benderfyniadau strategol yn yr ysgol ac yn cyfrannu at les a hapusrwydd y gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn trefnu bod pecynnau bwyd yn cael eu casglu yn yr ysgol a'u cludo i'r banc bwyd lleol.

Mae staff yn hyrwyddo diwylliant Cymru a threftadaeth Gymreig yn fwriadus. Er enghraifft, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd rhan mewn eisteddfodau a jamborïau. Yn ogystal, mae themâu fel 'A Fuoch Chi Erioed yn Morio' yn dathlu hanes a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r gymuned leol i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog fel cwblhau astudiaethau amgylcheddol yn yr ardal leol ac ymweld â Phlasty Craig y Nos. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymfalchïo yn nhraddodiadau'r ardal a'u Cymreictod.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ystyried safbwyntiau eraill yn ogystal â rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar sut y gellir helpu eraill sy'n llai ffodus. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am gredoau crefyddau'r byd trwy ddarganfod mwy am eu traddodiadau a'u prif ddathliadau. Er enghraifft, wrth drafod hanes Anne Frank, maent yn datblygu empathi ag eraill sydd wedi wynebu heriau ac amseroedd caled.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod o gyfleoedd sy’n hyrwyddo iechyd meddyliol a chorfforol y disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gwersi nofio, clybiau chwaraeon a theithiau cerdded yn yr ardal leol. Darperir ystod eang o gyfleoedd cyffrous i ddatblygu medrau creadigol disgyblion. Er enghraifft, maent yn gweithio gydag artistiaid lleol ac yn mynychu gwersi dawns a thelyn. Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod gyfoethog ac amrywiol o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae teithiau i ganolfan ieuenctid leol yn sbarduno’r disgyblion i ddysgu am fyw yn annibynnol a chefnogi ei gilydd. Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion berfformio a datblygu’u dychymyg trwy’r celfyddydau mynegiannol, creadigol a chorfforol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cystadlu mewn eisteddfodau a chystadlaethau chwaraeon cenedlaethol sy’n datblygu eu gwydnwch a’u hunanhyder yn effeithiol.

Mae ymweliadau gan unigolion fel yr heddwas yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o beryglon fel camddefnyddio’r we. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion ac maent yn cydweithio’n agos â theuluoedd pan mae pryder o ran presenoldeb disgybl. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu, gyda’r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol a thrafodaethau staff rheolaidd. Mae trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy’n seiliedig ar sicrhau’r lles gorau posibl ar gyfer pob disgybl o fewn cymuned ddysgu gynhwysol, cyfeillgar a chlòs. Mae hi wedi rhannu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, rhieni a’r gymuned ehangach. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o’i hun a’r staff ac yn dyheu am i bob disgybl fod yn ddiogel, yn gysurus ac yn mwynhau eu profiadau dysgu. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o fod yn rhan o un teulu mawr gofalgar yn treiddio trwy holl agweddau o waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn llwyddiannus ac mae cadw disgyblion yn ddiogel yn ganolbwynt amlwg ym mywyd yr ysgol.

Mae’r pennaeth yn cael ei chefnogi gan uwch reolwyr a thîm o staff ymroddgar a gweithgar. Maent yn ymdrechu’n ddiflino i ddarparu cwricwlwm cynhwysfawr a chyfoethog sy’n ysbrydoli’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn bwrpasol. Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad staff ac mae cyswllt rhesymegol rhwng blaenoriaethau gwella’r ysgol a thargedau datblygu unigol y staff. Cefnogir hyn gan ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol sy’n adeiladu ar wybodaeth a medrau staff yn effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn mynychu hyfforddiant defnyddiol er mwyn datblygu eu gallu i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol o fewn y dosbarthiadau a darpariaeth yr ‘Hafan’ a chanolfan ‘Glas y Gors’.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Maent yn sicrhau bod rhanddeiliaid, fel staff a disgyblion, yn casglu ystod gynhwysfawr o dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn dadansoddi’r dystiolaeth yn ofalus ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae arweinwyr yn mynd ati i lunio cynlluniau gwella manwl sy’n rhoi sylw pwrpasol i’r meysydd hyn ynghyd â mynd i’r afael â blaenoriaethau gwella cenedlaethol, er enghraifft er mwyn lleihau

effaith tlodi ar safonau, cynnydd a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol yn cael ei fonitro'n agos ac yn addasu'r cynlluniau gwella'n ddeallus a phendant, lle mae angen.

Mae'r llywodraethwyr yn eiriolwyr angerddol dros yr ysgol. Maent yn hynod gefnogol i holl agweddau gwaith yr ysgol ac yn ymfalchïo yn eu rôl. Maent yn cwblhau ystod dda o weithgareddau monitro, er enghraifft drwy graffu ar waith a gwerthuso trefniadau'r ysgol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth ddefnyddiol o gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i herio arweinwyr ynghylch effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a lles y disgyblion. Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn defnyddio adnoddau yn bwrpasol a chraff. Maent yn sicrhau eu bod yn gwario grantiau fel y grant datblygu disgyblion yn briodol, er enghraifft trwy ddarparu rhaglenni sy'n cefnogi anghenion lles ac iechyd meddwl disgyblion bregus. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn adeiladu ystod eang o bartneriaethau cynhyrchiol iawn gyda rhieni a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, maent yn trefnu gweithdai defnyddiol sy'n rhannu gwybodaeth bwysig â rhieni ynghylch y profiadau dysgu mae eu plant yn eu derbyn ynghyd â chynnig syniadau ymarferol ynghylch sut i gefnogi eu plant gyda'u gwaith cartref. Yn ogystal, mae'r ysgol yn trefnu gwersi Cymraeg min nos i rieni, sy'n datblygu eu gallu i ddeall a siarad yr iaith ac i gefnogi dysgu eu plant. Mae gan yr ysgol berthynas gref â'r ddarpariaeth cyn ysgol sydd wedi ei lleoli'n gyfagos. Mae arweinwyr yn cysylltu'n gynnar â staff y ddarpariaeth a rhieni newydd er mwyn rhannu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion lles a dysgu disgyblion. Mae hyn yn cefnogi staff i roi trefniadau ar waith a pharatoi'n amserol er mwyn diwallu anghenion disgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   15/02/2024